CANLLAWIAU AR DALIADAU RHEOLIADAU ADEILADU YN WEITHREDOL O 1 MEHEFIN 2014

ANHEDDAU NEWYDD

Bwriedir i'r taliadau am waith Rheoliadau Adeiladu dalu am gost y Gwasanaeth. Mae dau ddull y gall yr awdurdod eu defnyddio i sefydlu'r tâl am waith adeiladu:-

- Taliadau a bennir ar sail unigol, a
- Sefydlu tâl safonol.

Pennu tâl ar sail unigol

Pennir taliadau'n unigol ar gyfer y cynlluniau mawr a/neu fwy cymhleth
Mae hyn yn cynnwys:

- Gwaith sy'n cynnwys codi neu drosi 21 neu fwy o anheddau, neu

- Waith sy'n cynnwys codi neu addasu annedd lle mae arwynebedd llawr annedd yn fwy na 300m^2

Os nad yw eich gwaith adeiladu wedi'i restru fel tâl safonol, caiff ei gyfrifo'n unigol. E-bostiwch building.control@newport.gov.uk gyda'r geiriau 'Cais am dâl Rheoliadau Adeiladu' yn y teitl a rhowch ddisgrifiad o'r gwaith arfaethedig. Byddwn yn cysylltu â chi o fewn 24 awr (dydd Llun i ddydd Gwener) ar gyfer gwneud taliad, am gyngor neu am fwy o fanylion ffoniwch 01633 210093/95

TALIADAU SAFONOL

Mae'r Tabl canlynol yn manylu ar y taliadau safonol ar gyfer anheddau neu addasiadau newydd ar gyfer anheddau ffurf:-

Mae'r taliadau hyn wedi'u pennu gan yr awdurdod ar y sail nad yw gwaith adeiladu'n cynnwys technegau arloesol neu risg uchel (manylion ar gael gan yr Awdurdod) a/neu nad yw hyd y gwaith adeiladu o'r dechrau tan y diwedd yn fwy na 12 mis.

Mae'r taliadau hyn hefyd wedi'u pennu ar y sail bod y gwaith cynllunio ac adeiladu yn cael ei wneud gan berson neu gwmni sy'n gymwys i wneud y gwaith cynllunio ac adeiladu perthnasol y cyfeirir ato yn y tabl taliadau safonol. Os nad ydynt, gall taliadau ychwanegol fod ynghlwm wrth y gwaith.

Dim ond pan fydd y gwaith trydanol yn cael ei wneud gan ddefnyddio Trydanwr Cofrestredig Rhan P y bydd y taliadau a ddangosir yn berthnasol. Mae Trydanwr cofrestredig Rhan P yn Drydanwr cymwys sydd hefyd â'r wybodaeth angenrheidiol am reoliadau adeiladu er mwyn galluogi ei gorff achredu i ardystio ei waith. Er mwyn adennill costau'r Awdurdod Lleol, os bydd unrhyw un heblaw Trydanwr Cofrestredig Rhan P yn ymgymryd â'r gwaith trydanol, mae tâl ychwanegol (gweler Taliadau Estyniadau a Newidiadau Domestig - Tabl C, Categori 5) yn gymwys.

Tâl Rheoleiddio (Cais ôl-weithredol) - mae hyn yn talu am y gost o asesu eich Cais am Dystysgrif Rheoleiddio gan gynnwys yr holl arolygiadau angenrheidiol ac mae'n daladwy ar ôl cyflwyno'r Cais. Y tâl Rheoleiddio sy'n daladwy yw swm sy'n hafal i **150%** o'r Cynllun/Arolygu a'r Tâl Hysbysiad Adeiladu net (Dim Taw).

TABL A

TALIADAU SAFONOL AR GYFER CREU TAI NEWYDD NEU EU HADDASU

Mae'r ffigurau mewn **PRINT AMLWG** yn cynnwys **TAW** ar gyfradd o 20% (**nid yw TAW** yn daladwy ar Dâl Rheoleiddio)

Nifer yr Anheddau	Taliadau Cynllun/Arolygiad a Hysbysiad Adeiladu	Tâl Rheoleiddio
	£	£
1	610.00 **732.00**	915.00
2	810.00 **972.00**	1215.00
3	1050.00 **1260.00**	1575.00
4	1250.00 **1500.00**	1875.00
5	1450.00 **1740.00**	2175.00
6	1575.00 **1890.00**	2362.50
7	1740.00 **2088.00**	2610.00
8	1860.00 **2232.00**	2790.00
9	2050.00 **2460.00**	3075.00
10	2200.00 **2640.00**	3300.00
11	2300.00 **2760.00**	3450.00
12	2425.00 **2910.00**	3637.50
13	2570.00 **3084.00**	3855.00
14	2715.00 **3258.00**	4072.50
15	2865.00 **3438.00**	4297.50
16	3060.00 **3672.00**	4590.00
17	3205.00 **3846.00**	4807.50
18	3350.00 **4020.00**	5025.00
19	3500.00 **4200.00**	5100.00
20	3645.00 **4374.00**	5467.50

NODWCH: AR GYFER 21 NEU FWY O ANHEDDAU NEU OS YW ARWYNEBEDD LLAWR ANNEDD YN FWY NA 300M^2 ASESIR Y TALIADAU AR SAIL UNIGOL